Pecyn Mathemateg Teulu

# Gweithgareddau Mathemateg i'r Teulu

## Meddyliau

M

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

National Numeracy
Getting on with numbers

Ariannwyd y gwaith o gyfieithu a dylunio'r adnodd hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (Prosiect Lluosi).
Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

**Pecyn Mathemateg Teulu**

1 2 3 4



## Rhagarweiniad

Mae agweddau cadarnhaol at ddysgu'n bwysig pan fo'n fater o fod yn hyderus gyda rhifau. Nod yr adnodd teuluol hwn yw hyrwyddo meddylfryd cadarnhaol drwy weithgareddau byr a hwyliog i blant a theuluoedd gael eu gwneud gyda'i gilydd.

Mae 6 gweithgaredd yn y pecyn, a grëwyd gan National Numeracy. Mae'r gweithgareddau wedi eu trefnu yn ôl cyfnod allweddol gan fynd yn raddol anoddach. Ond gallwch ddefnyddio gweithgaredd o grŵp oed arall os byddai hynny'n well. Nid yw'r taflenni gweithgaredd unigol yn nodi oed na chyfnod allweddol, dim ond codau lliw fel y gallwch ddweud y gwahaniaeth.

Mae pob gweithgaredd yn cynnwys blwch sylwadau i blant a theuluoedd roi adborth ar y drafodaeth a'r meddwl a ysgogir gan y gweithgaredd.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Trosolwg yn awgrymu sut i rannu'r gweithgareddau yn ôl cyfnod allweddol.
- 6 o weithgareddau, yn y drefn a roddir yn y trosolwg.

Mae prif ffocws gweithgareddau'r pecyn ar feddylfryd yn hytrach na chwricwlwm neu sgiliau mathemateg. Maen nhw'n weithgareddau penagored - ni roddir atebion.

Argymhellwn eu defnyddio ochr yn ochr â'r pecynnau gweithgaredd Family Maths grŵp blwyddyn sy'n ymwneud â datblygu sgiliau mathemateg.

# Trosolwg

| Cyfnod Allweddol / Grŵp Blwyddyn | Gweithgareddau |
|---|---|
| **Bl. Cynnar / Cyfnod Sylfaen** (3- 5 oed) | Adeiladu Tyrau<br>Rŵan dw i'n gallu... |
| **CA1** (5-7 oed) | Fyny'r Ysgol Lawr y Neidr |
| **CA2** (7-11 oed) | Tynnu llun |
| **CA3** (11-14 oed) | Arolwg Dysgu |
| **CA4** (14-16 oed) | Y llwybr at lwyddiant |

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Adeiladu Tyrau

Pecyn Mathemateg Teulu

Mae Mei a Mai'n chwarae gyda'i gilydd. Maen nhw'n ceisio adeiladu tyrau tal gyda blociau adeiladu.

## Siaradwch am

Dydy pethau ddim bob amser yn gweithio'r tro cyntaf. Roedd tyrau cyntaf Mei a Mai wedi disgyn.

Pwy gododd dŵr tal yn y diwedd? Pam na chododd Mei dŵr tal?

Beth wnaeth Mai pan ddisgynnodd ei thŵr hi?

Pe bai Mei wedi rhoi cynnig arall arni, a allai fod wedi codi tŵr tal hefyd?




## Chwarae a darganfod

Ceisiwch wneud eich tŵr eich hun. Pa mor dal allwch ei wneud o? Cofiwch roi cynnig arall arni os yw'n disgyn!

## Bywyd pob dydd

Siaradwch am bethau eraill sydd ddim yn hawdd i'w gwneud yn syth. Beth y mae pobl yn y teulu yn gallu ei wneud rŵan ar ôl cael trafferth ei wneud i ddechrau?

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**




Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Rŵan dw i'n gallu...


Pecyn Mathemateg Teulu

Mae plant yn dysgu llawer o bethau drwy'r amser! Beth ddysgoch chi i'w wneud ers pan oeddech yn fabi newydd?


Dyma fabi. Lliwiwch y pethau oeddech chi'n gallu eu gwneud yn fabi newydd.

Dyma blentyn sydd yr un oed â chi. Lliwiwch y pethau y gallwch eu gwneud rŵan.

## Pan oeddwn yn fabi newydd, gallwn




## Rŵan dw i'n gallu...




Ydych chi wedi lliwio mwy o bethau ar y plentyn?

Ydych chi'n meddwl y byddwch yn lliwio mwy fyth o bethau pan fyddwch yn hŷn?


**Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:**
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**



**familymathstoolkit.org.uk**



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers

# Rŵan dw i'n gallu...

Pecyn Mathemateg Teulu



## Siaradwch am

Pam fod plant yn dysgu sut i wneud pethau rhwng bod yn fabi newydd a bod yn 5 oed.

Y pethau nad ydynt wedi dysgu i'w gwneud eto ond efallai'n eu dysgu'n fuan. Cofiwch siarad am bethau y tu allan i'r ysgol yn ogystal â phethau a ddysgwch yn yr ysgol.

Siaradwch am rywbeth a ddysgoch chi i'w wneud ers dod yn oedolyn.

## Bywyd pob dydd

Chwiliwch am bethau newydd yr ydych yn neu wedi'i ddysgu heddiw.



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Fyny'r Ysgol Lawr y Neidr

Pecyn Mathemateg Teulu

## Chwarae a darganfod

Chwaraewch y gêm Fyny'r Ysgol Lawr y Neidr gyda'ch gilydd.

Nod y gêm yw cyrraedd sgwâr rhif 100.

Mae pob chwaraewr yn dechrau ar sgwâr 1 a chymryd ei dro i daflu'r dis a symud nifer y llefydd a ddangosir ar y dis.

Os glaniwch wrth waelod ysgol, rydych yn dringo'r ysgol i'r sgwâr ar ei phen. Os glaniwch ar ben neidr, rhaid symud i lawr y gynffon.

**Os nad yw'r gêm fwrdd ei hun gennych, gallwch ddefnyddio'r enghraifft ar y dudalen nesaf a chreu eich cownteri eich hun.**

## Siaradwch am

Wrth chwarae, siaradwch am y nadroedd. Os byddwch yn glanio ar neidr, ydy o'n bosib ennill o hyd? Hyd yn oed gyda'r nadroedd, ydy pob chwaraewr yn cyrraedd 100 yn y diwedd?

Ar ôl i bawb gyrraedd 100, a ddilynodd bawb yr un llwybr i gyrraedd yno?



## Bywyd pob dydd

Weithiau mae dysgu pethau newydd fel chwarae Fyny'r Ysgol Lawr y Neidr. Rydym ni'n gwybod ble'r ydym eisiau cyrraedd ond mae pethau'n ein rhwystro, fel y nadroedd.

Siaradwch am bethau y cawsoch drafferth yn eu gwneud – fel dysgu sut i reidio beic, neu rywbeth yn yr ysgol. A oes pethau sydd fel nadroedd yn eich rhwystro? Sut wnaethoch chi ymateb i'r nadroedd?

Beth am bethau sydd fel ysgolion sy'n eich helpu i wella a symud ymlaen?

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk


familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Fyny'r Ysgol Lawr y Neidr

Pecyn Mathemateg Teulu




**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Tynnu llun

Pecyn Mathemateg Teulu

## Allwch chi dynnu llun eliffant?

Rhowch gynnig arni i weld. A chael eich teulu i wneud hefyd!

Gall tynnu llun fod yn eithaf anodd, yn enwedig rhywbeth nad ydych wedi tynnu llun ohono o'r blaen. Weithiau gall ychydig o gyngor ein helpu i ddysgu sut i dynnu llun yn well.

Wnaethoch chi gyd dynnu llun eliffant yr un fath? A oes rhannau o luniau eich teulu yr ydych yn eu hoffi? Sut dynnoch chi lun o'r rhain? Allwch chi helpu eich gilydd i wella eich lluniau?

Ar y dudalen nesaf mae canllaw cam-wrth-gam yn disgrifio un ffordd o dynnu llun eliffant. Ceisiwch ddefnyddio'r canllaw i dynnu llun eliffant arall.

Beth ydych yn ei hoffi am yr eliffant hwn?



Tynnwch lun nifer o eliffantod, naill ai drwy ddilyn y canllaw neu eich dychymyg – neu'r ddau! Pa un yw eich hoff lun?

## Siaradwch am


Oedd o'n anodd tynnu llun yr eliffant y tro cyntaf? Oedd eich llun cyntaf yn un da neu a wnaethoch wella wrth ymarfer?

A wnaeth cyngor gan eich teulu a'r canllaw helpu o gwbl?

Beth feddyliwch fyddai'n digwydd wrth ymarfer tynnu llun eliffant pob dydd?

## Bywyd go iawn

Beth arall y mae pobl yn ei chael yn anodd ei wneud y tro cyntaf? Beth oedd yn anodd i chi neu eich teulu ei wneud y tro cyntaf a wellodd gyda chymorth ac ymarfer?



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at: enquiries@nationalnumeracy.org.uk


familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Tynnu llun

Pecyn Mathemateg Teulu



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Arolwg dysgu

Pecyn Mathemateg Teulu

Nid yw dysgu pethau newydd bob amser yn hawdd.
I gael gwybod mwy am sut y dysgwn bethau, gwnewch arolwg o brofiadau 5 o bobl.
Gallai fod yn bobl yn eich teulu neu'n bobl eraill.

**Gofynnwch y cwestiynau canlynol gan nodi eu hatebion.**

Gallech gofnodi eu hatebion mewn tabl.

1. Beth yw'r peth anoddaf a ddysgoch i'w wneud erioed?
2. Sut oeddech chi'n teimlo y tro cyntaf i chi roi cynnig arni?
3. Pa drafferthion gawsoch chi?
4. Sut wnaethoch chi oresgyn y trafferthion?
5. Sut deimlad oedd pan lwyddoch chi yn y diwedd?

**Gallai'r enghreifftiau gynnwys dysgu gyrru car neu redeg 5km**

## Siaradwch am

A oes themâu cyffredin yn atebion pobl? Oedden nhw'n teimlo pethau tebyg neu wedi goresgyn eu trafferthion mewn ffyrdd tebyg? A oedd unrhyw atebion wnaeth eich synnu chi neu eich teulu? Beth synnodd chi amdanynt?

## Bywyd go iawn

A oes pethau yr ydych yn eu dysgu rŵan ac yn ei chael yn anodd? Meddyliwch sut y gallai themâu atebion eich arolwg fod yn ddefnyddiol. Oedd pobl yn teimlo'r un fath â chi wrth ddechrau dysgu i ddechrau? Fyddech chi'n gallu goresgyn eich trafferthion mewn rhai o'r ffyrdd a ddisgrifiodd y bobl yn yr arolwg? Ydych chi'n meddwl y teimlwch yr un fath ar ôl llwyddo yn y diwedd? Gofynnwch i'ch teulu hefyd!

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Y llwybr at llwyddiant

Pecyn Mathemateg Teulu

Os byddwn yn cael trafferth gyda rhywbeth, gall deimlo fel na fyddwn byth yn llwyddo. Gall deimlo weithiau nad ydym byth yn ddigon da'n ceisio gwneud rhywbeth.


Ond mae pawb yn cael trafferthion a gwneud camgymeriadau – hyd yn oed y bobl fwyaf llwyddiannus.

Darllenwch am hanesion y bobl adnabyddus hyn a'r trafferthion a gawsant cyn llwyddo:

Methodd **Lewis Hamilton** ag ennill pencampwriaeth F1 y byd ar ei ymgais gyntaf yn 2007. Gan adael y trac i fynd i'r lôn wasanaeth, oedd yn gamgymeriad gwirion, collodd bwyntiau a fyddai wedi ennill y bencampwriaeth iddo.

Yn 2008 roedd ar darged i golli eto oherwydd bod angen iddo orffen yn y pumed safle i gael digon o bwyntiau. Ond daliodd ati gan oddiweddyd Timo Glock i orffen yn y pumed safle ac ennill y bencampwriaeth.

Mae Hamilton bellach wedi ennill sawl pencampwriaeth ac yn cael ei ystyried i fod yn un o'r bobl fwyaf llwyddiannus mewn hanes chwaraeon.



Cafodd **Alexandra Burke** glyweliad am yr X Factor yn 2005 ond ni chyrhaeddodd y rownd derfynol fyw. Daeth yn ôl yn 2008 gan ennill y gystadleuaeth a gwerthu miliynau o recordiau o ganlyniad.

Enillodd **James Arthur** y gystadleuaeth yn 2012 er bron cael ei ddileu o'r gystadleuaeth yn Wythnos 7.

Yn achos llawer o'r rhai na enillodd yn y diwedd, ni wnaethant anobeithio gan fynd ymlaen i gael gyrfaoedd canu pop llwyddiannus, fel **Olly Murs, JLS** ac **One Direction**.



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Y llwybr at llwyddiant

Pecyn Mathemateg Teulu



## Siaradwch am

Sut y byddech wedi teimlo yn y sefyllfaoedd hyn.

Fyddech chi'n teimlo'n rhwystredig gyda'r trafferthion a'r siom?

Fyddech chi'n cael eich temtio i roi'r gorau iddi?

Sut feddyliwch wnaeth y bobl hyn benderfynu dal ati?

Pa hanesion eraill am bobl yn goresgyn trafferthion wyddoch chi amdanynt?

Cadwch lygad allan am enghreifftiau o bobl sy'n eich ysbrydoli – pobl enwog neu bobl yr ydych yn eu hadnabod yn eich bywyd. Pa drafferthion a gafodd y bobl hyn cyn llwyddo?

## Bywyd go iawn

Defnyddiwch y grid i feddwl am bethau yr ydych chi neu eich teulu wedi llwyddo i'w gwneud. Pa drafferthion a gawsoch ar hyd y ffordd? Sut y llwyddoch i'w goresgyn?

Beth yw eich amcanion ar gyfer y dyfodol? Meddyliwch am beth yr ydych eisiau ei gyflawni yn yr ysgol, a hefyd ar ôl gadael.

Ydych chi'n meddwl y gwnewch gamgymeriadau wrth geisio cyflawni eich amcanion? Pa drafferthion y byddwch efallai'n eu hwynebu – a sut y byddech yn hoffi ymateb iddynt?



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Y llwybr at llwyddiant

Pecyn Mathemateg Teulu

| Pa amcanion ydych chi neu eich teulu wedi eu cyflawni? | Pa drafferthion neu rwystrau a wyneboch? | Sut y llwyddoch i'w goresgyn? |
|---|---|---|
| | | |

| Fy amcanion at y dyfodol | Pa drafferthion allech chi ei wynebu wrth eu cyflawni? | Beth fyddai'r ffordd orau o ymateb i'r trafferthion hyn? |
|---|---|---|
| Yn yr ysgol: | | |
| Ar ôl gadael yr ysgol: | | |

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers